

2021 Rhif (Cy. )

## **TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

# Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Trewern, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021

*Gwnaed* 24 Chwefror 2021  
*Yn dod i rym* 1 Mawrth 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y llylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

- 1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Trewern, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 1 Mawrth 2021.

- ## 2. Yn y Gorchymyn hwn:—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

2021 No. (W. )

## **ROAD TRAFFIC, WALES**

# The A458 Trunk Road (Trewern, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021

*Made* *24 February 2021*

*Coming into force* *1 March 2021*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A458 Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

## **Title, Commencement and Interpretation**

- 1.** The title of this Order is the A458 Trunk Road (Trewern, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2021 and it comes into force on 1 March 2021.

## **2. In this Order:—**

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrrd (Cyfngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A458 Amwythig i Dolgellau sy'n ymestyn o derfynfa'r terfyn cyflymder 40 mya i'r gorllewin o Drewern i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 280 o fetrau yn Sir Powys.

## Gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

## Cymhwysyo

**6.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Chwefror 2021

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (TREWERN, POWYS) (GWAHARD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2021

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn Nhrewern yn Sir Powys.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A458 Shrewsbury to Dolgellau trunk road that extends from the 40 mph speed limit terminus west of Trewern in a westerly direction for a distance of 280 metres in the County of Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 19:00 hours on 1 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions

**3.** No person may, during the closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

**4.** No person may, during the closure period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

**5.** No pedestrian may, during the closure period, proceed on the length of the trunk road.

## Application

**6.** The prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

## Duration of this Order

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

24 February 2021

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

## THE A458 TRUNK ROAD (TREWERN, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2021

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Trewern in the County of Powys.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), pob beiciwr a phob cerddwr rhag mynd ar y darn o'r A458 sy'n ymestyn o derfynfa'r terfyn cyflymder 40 mya i'r gorllewin o Drewern i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 280 o fetrau.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin o ben dwyreiniol y darn o'r ffordd sydd ar gau fydd mynd ar yr A458 tua'r dwyrain, ar yr A5 tua'r gogledd-orllewin ac ar yr A483 tua'r de i ailymuno â'r A458 wrth Gylchfan Tal-y-bont. I'r gwrrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o ben gorllewinol y darn o'r ffordd sydd ar gau.

Bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 19:00 o'r gloch ar 1 Mawrth 2021 tan 06:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmyntion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**G N JONES**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the A458 that extends from the 40 mph speed limit terminus west of Trewern in a westerly direction for a distance of 280 metres.

The alternative route for westbound traffic from the eastern extent of the closure will be via the A458 eastbound, A5 north-westbound and A483 southbound to re-join the A458 at Buttington Roundabout. Vice versa for eastbound traffic from the western extent of the closure.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 19:00 hours on 1 March 2021 until 06:00 hours on 5 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**G N JONES**  
Transport  
Welsh Government